**<u>Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 9fed Gorffennaf 2024 am 7.30pm yn Ysgol Cribyn.</u>**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Gerwyn Owen, Johnny Davies, Lyn Williams, Glyn Davies, Alan Henson, Daniel Evans, Lynford Thomas, Harry Williams. Hywel Ifans

1. **YMDDIHEURIADAU** Cyng. Melinda Williams, Haf Hughes a'r Cyng. Ceris Jones (Cynghorydd Sir).

   Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, cymerwyd y Gadair gan y Cyng. Hywel Ifans.

2. **PERSONOL**
   Estynwyd gwellhad buan i gyn-aelod o'r Cyngor Cymuned, Dylan Williams, yn dilyn trawiad ar y galon yn ddiweddar. Mae Dylan yn ŵr i'r Cadeirydd, y Cyng. Melinda Williams ac yn fab i'r Cyng. Harry Williams.

3. **DATGELU BUDDION PERSONOL** - Dim i'w datgelu

4. **CADARNHAU COFNODION 11/06/2024**
   Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng. Lynford Thomasac eiliwyd gan y Cyng. Lyn Williams a derbyniwyd yn unfrydol.

5. **MATERION YN CODI**

   a. **5 i. Canolfan Bleidleisio Cribyn.** Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Sir Ceredigion yn cadarnhau bod y Ganolfan yn symud nôl i'r Ysgol yn barhaol
   b. 11a. **Perspex.** Mae Alan Edwards wedi ordro'r Perspex i hysbysfwrdd Dihewyd.
   c. **11 c Mesurau tawelu traffig**. Darllenwyd ymateb gan y Cyngor Sir trwy law'r Cyng. Ceris Jones yn cadarnhau nad oes bwriad rhoi llinellau melyn o flaen Swyddfa Bost Felinfach.

6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR.** Wele 11 c uchod.

**7. CYLLID**

I. Tal y Clerc mis Mehefin **£**217.84
II. Kids Cancer Charity. Diddymwyd siec 001522 am £25.00 gan y banc gan ei fod wedi sbwylo. **Cytunwyd** i anfon siec o £25 yn ei le.

8. **CYFARFOD RHANBARTH UN LLAIS CYMRU 27/6/2024** Nid oedd hi'n bosib i'r cynrycholwyr fod yn bresennol yn y cyfarfod.
   Yn dilyn trafodaeth **penderfynwyd t**rafod mater cynrychiolaeth yn y cyfarfod hwn. Am nifer o resymau, nododd y Cyng. Harry Williams ei ddymuniad i beidio â pharhau i gynrychioli'r Cyngor Cymuned ar Bwyllgor Rhanbarth Un Llais Cymru. Serch

hynny, pwysleisiodd bwysigrwydd y swydd a'r budd o fynychu'r cyfarfodydd ar hyd y blynyddoedd.
Yn dilyn trafodaeth **cynigiwyd**
(a). Y Cyng. Hywel Ifans fel cynrychiolydd gan y Cyng. Harry Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Alan Henson.
(b) Cynigiodd y Cyng. Gerwyn Owen **welliant** ar y cynnig ac eiliwyd gan y Cyng. Lynford Thomas sef y Cadeirydd yn flynyddol fydd i gynrychioli'r Cyngor Cymuned yn y cyfarfodydd (a'r Is-Gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd).
Gofynwyd i'r Cyng. Hywel Ifans adael yr ystafell a chynhaliwyd pleidlais. **Cynnig (b) aeth â hi o 6-2.**

## 9. GOHEBIATH

i. **Derbyniwyd llythyron diolch gan:**
Pwll Nofio Abereron
Kids Cancer Charity
CFFI Ceredigion
Blood Bikes Wales, Ceredigion

ii. Derbyniwyd llythyr gan Bwyllgor y Vale yn gofyn am help i glirio ar y 14eg o Orffennaf er mwyn dechrau ar y gwaith adeiladu.

iii. Derbyniwyd Tystysgrif Cyfranddaliadau Ysgol Cribyn

## 10. UNRHYW FATER ARALL

i. **Camera cyflymder.** Nododd y Cyng. Lyn Williams nad oedd y fan wedi bod yn Cribyn ers tro. Penderfynwyd ysgrifennu at y swyddog â gofal dros y gwasanaeth hwn.

ii. **Ysgol Cribyn.** Cafwyd cais gan y Cyng. Alan Henson am gefnogaeth y Cyngor, trwy lythyr, ar gyfer Cam 2 cais Cymdeithas Clotas i Lywodraeth Cymru am grant i brynu'r Ysgol. Cytunwyd yn unfrydol. Y Clerc i drefnu â'r Cadeirydd.

iii. **Meinciau.** Penderfynwyd ysgrifennu gair o ddiolch i Will Davies am ei waith wrth helpu'r meinciau yn sgil camgymeriad Solway a'i wneud heb godi tâl.

## 11. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

**Medi'r 10fed yn Neuadd Felinfach**

**Ar gais y Cyng. Alan Henson, cytunwyd i newid dyddiad y cyfarfod i'r 3ydd o Fedi.**